



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm  
Clydach, CF40 2XX  
Dydd Iau, 23ain Ionawr, 2020 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor  
(Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i [UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk](mailto:UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk)

### **MATERION I'W TRAFOD**

#### **1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

#### **2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 12)**

### **3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

Derbyn [Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd](#) yn dilyn y diwygiadau diweddar sy'n cynnwys:

- Penodi'r Cynghorydd Christina Leyshon yn Aelod Cabinet newydd ar faterion Gwasanaethau i Oedolion a Phlant;
- Penodi'r Cynghorydd Rhys Lewis yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau, Diwylliant a'r Gymraeg;
- Rhoi'r cyfrifoldeb am Addysg Blynnyddoedd Cynnar i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant; a
- Rhoi cyfrifoldeb am Wasanaethau ac Ymgysylltu Ieuenctid i Arweinydd y Cyngor.

### **4. AILGYLCHU YN RHCT - ARGYMHELLION Y GRŴP LLYWIO AR FATERION YR HINSAWDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu, sy'n cyflwyno argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, a ystyriodd adroddiad ar gyflawniad ailgylchu ar gyfer 6 mis cyntaf 2019/20, y Gyfleuster Adennill Deunydd newydd, datblygiadau ym Mryn Fica ar gyfer y dyfodol a newidiadau deddfwriaethol posibl.

**(Tudalennau 13 - 20)**

### **5. FFYNNON DWYM FFYNNON TAF - ARGYMHELLION Y GRŴP LLYWIO AR FATERION YR HINSAWDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu, sy'n cyflwyno argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, a oedd wedi trafod adroddiad ar y sefyllfa gyfredol o ran Prosiect Ynni Adnewyddadwy Ffynnon Dwym Ffynnon Taf.

**(Tudalennau 21 - 28)**

### **6. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL CYMRU 2018-2019**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno Adroddiad Blynnyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru 2019-2019.

**(Tudalennau 29 - 56)**

### **7. DIRPRWYO AWDURDOD I ORFODI DARPARIAETHAU DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2019 (FFIOEDD AC ATI)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned ac i'r Awdurdod Trwyddedu unigol yng Nghymru (Rhentu Doeth Cymru) i ddefnyddio pwerau gorfodi Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019.

**(Tudalennau 57 – 62)**

**8. CYLLIDEB REFENIW'R CYNGOR AR GYFER 2020/21**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am setliad llywodraeth leol 2020/2021 a chanlyniadau cam 1 o ymgynghoriad y gyllideb, i gynorthwyo gyda'i drafodaethau wrth lunio'r strategaeth cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, y bydd yn ei hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

**(Tudalennau 63 - 140)**

**9. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**10. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL – Y DIWEDDARAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd yn erbyn themâu allweddol y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23.

**(Tudalennau 141 - 162)**

**11. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n nodi datganiad sefyllfa ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

**(Tudalennau 163 - 180)**

**12. MATERION BRY S**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)  
Y Cynghorydd R Bevan  
Y Cynghorydd A Crimmings  
Y Cynghorydd M Norris  
Y Cynghorydd J Rosser  
Y Cynghorydd R Lewis  
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:**

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen  
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.  
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor  
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol  
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu  
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol  
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu